O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 553 (Cy. 63)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym* | *11 Mawrth 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Coryton, Caerdydd i Gylchfan Abercynon, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2013.

**2.** —1. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 11 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd rhwng Cyfnewidfa Coryton yn Ninas a Sir Caerdydd a Chylchfan Abercynon ym Mwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fel y'u pennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwahardd a Chyfyngiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Atal**

**4.** Yn fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 7 Mawrth 2013

*R Morgan*

**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**YR ATODLEN**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Nantgarw hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Glyn-taf hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gogledd wrth Gyfnewidfa Bridge Street.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Nantgarw.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glan-bad.

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r de o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r de wrth Gyfnewidfa Bridge Street hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r de wrth Gyfnewidfa Glyn-Taf.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r de Cyfnewidfa Ffynnon Taf o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Ffynnon Taf hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r gogledd Cyfnewidfa Ffynnon Taf o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Ffynnon Taf hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r gogledd Cyfnewidfa Nantgarw o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Nantgarw hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd.

Y darn hwnnw o ffordd ymadael tua'r de Cyfnewidfa Nantgarw o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de hyd at ei chysylltiad â phrif gerbytffordd gylchredol cylchfan Nantgarw.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r de Cyfnewidfa Nantgarw o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan

Nantgarw hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r gogledd Cyfnewidfa Glan-bad o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Glan-bad hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r de Cyfnewidfa Glan-bad o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Glan-bad hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de.

Y darn hwnnw o ffordd ymadael tua'r gogledd Cyfnewidfa Glyn-taf o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd hyd at ei chysylltiad â phrif gerbytffordd gylchredol cylchfan Glyn-taf.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r de Cyfnewidfa Glyn-taf o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Glyn-taf hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de.

Y darn hwnnw o ffordd ymadael tua'r gogledd Cyfnewidfa Broadway o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd hyd at ei chysylltiad â phrif gerbytffordd gylchredol cylchfan Broadway.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r de Cyfnewidfa Broadway o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Broadway hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de.

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r gogledd Cyfnewidfa Bridge Street o brif gerbytffordd gylchredol cylchfan Bridge Street hyd at ei thrwyniad ffisegol â phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd.

Y darn hwnnw o ffordd ymadael tua'r de Cyfnewidfa Bridge Street o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r de hyd at ei chysylltiad â phrif gerbytffordd gylchredol cylchfan Bridge Street.